gwarchodfa natur leol



# NANT Y COED

local nature reserve

**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**

- **Llwybr y coed**
- **Yn agos i Lanfairfechan**
- **Afon byrlymus**
- **Llawer o fywyd gwyllt**



- **Woodland walk**
- **Close to Llanfairfechan**
- **Tumbling river**
- **Rich in wildlife**



## Cyflwyniad

Mae posteri'r 1930au yn disgrifio Nant y Coed fel 'yr olygfa harddaf o greigiau ac afonydd cefn gwlad yng Nghymru', ac mae'n dal i fod felly heddiw. Mae Nant y Coed yn dir coediog heddychlon, sydd â chyfoeth o fywyd gwyllt, ac mae'n gorwedd wrth droed y mynyddoedd sydd tua milltir i'r de o Lanfairfechan. Gallwch ei fwynhau drwy roi cynnig ar y teithiau cerdded a ddisgrifir yn y daflen hon. Caiff Nant y Coed ei reoli gan Wasanaeth Cefn Gwlad Conwy fel Gwarchodfa Natur Leol. Gobeithiwn y mwynhewch eich ymweliad.

### SUT YDW I'N MYND YNO?

**Ar drên/bws:** Ffôn Traveline Cymru:
0870 6082608 www.traveline-cymru.org.uk
Mae'r map yn dangos sut i gyrraedd y safle.

**Efo car:** Dilynwch yr A55 i gyffordd 14 neu 15 i Lanfairfechan. Dilynwch y brif ffordd i'r groesffordd a'r goleuadau traffig. Gweler y map am sut i gyrraedd y safle.

### RHAGOR O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY

Am ragor o wybodaeth a thaflenni ar amrywiaeth o deithiau cerdded ewch i: www.conwy.gov.uk/countryside

**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy:
**Ffôn:** 01492 575200/575290

**Am gopi o'r llyfryn hwn mewn print mawr ffoniwch 01492 575290**

## Introduction

The 'loveliest sylvan rock and river scenery in Wales' is how the posters of the 1930's describe Nant y Coed.... and it is still the same. Nant y Coed is a peaceful woodland, rich in wildlife, lying at the foot of the mountains about a mile to the south of Llanfairfechan and can be enjoyed by trying the walking routes described within this leaflet. Nant y Coed is managed by Conwy Countryside Service as a Local Nature Reserve. We hope you enjoy your visit.

### HOW DO I GET THERE?

**By train/bus:** Tel. Traveline Wales:
0870 6082608 www.traveline-cymru.org.uk
See the map for how to reach the site.

**By car:** Follow the A55 to junction 14 or 15 for Llanfairfechan. Follow the main road to the crossroads with traffic lights. See the map for how to reach the site.

### MORE WALKS IN CONWY

For information and leaflets on a variety of walks: visit: www.conwy.gov.uk/countryside

**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
Conwy Countryside Service:
**Tel:** 01492 575200/575290

**For a large print copy of this booklet please call 01492 575290**




***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy

Gwasanaeth Cefn Gwlad Conwy Countryside Service

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales




## LLWYBRAU TROED

Mae'r brif ffordd sydd ag arwyddion arni o fynedfa Newry Drive yn eich arwain i fyny afon aflonydd at hen bwll pysgod. Mae wyneb da ar y llwybr i fyny at y pwll, ac nid yw'n rhy serth. Os ydych yn teimlo'n egnïol, gallwch ddilyn y llwybr cylchog, sydd ag arwyddion arno, i fyny at y llethr o fariandir uwchben y pwll sydd wedi ei orchuddio gan goed derw, ac yno, o'r top, mae golygfeydd arbennig drosodd i Ynys Môn. Fel arall, gallwch fynd yn ôl ar hyd yr un ffordd, neu groesi dros y ddwy afon ar gerrig camu, os bydd amodau'r afon yn caniatáu, i gyrraedd maes parcio uchaf y Teiryd, ac yna mynd yn ôl i lawr lôn wledig. Mae'r gylchdaith gyfan yn llai na milltir o hyd. Bydd angen i chi wisgo esgidiau cerdded, a bod yn barod am unrhyw dywydd drwg.

## WALKING ROUTES

The main waymarked path from the Newry Drive entrance leads you up a tumbling river to the old fish pond. The path up to the pond is well surfaced and of a moderate gradient. If you feel energetic you can follow the waymarked circular route up the oak covered scree slope above the pond, with some fine views over to Anglesey from the top. Otherwise you can return the same way or cross over two rivers on stepping stones, river conditions permitting, to reach the top car park at Three Streams and return down a country lane. The whole circuit is less than a mile. You will need to wear walking boots and be prepared for any bad weather.

## BYWYD GWYLLT

Mae pwysigrwydd y safle i fywyd gwyllt yn cael ei adlewyrchu yn ei ddynodiad fel Gwarchodfa Natur Leol. Mae'r mariandir serth uwchlaw'r pwll, sydd wedi ei orchuddio â derwen mes di-goes (sy'n cael ei enw oherwydd nad oes coesyn ar gwpan y fesen), gyda chlychau'r grug a llus ar y llawr, yn enghraifft dda o dderwgoed mynydd-dir, tra bod gwaelod y cwm yn gartref i amrywiaeth o goed fel gwern, onnen a masarnen, ynghyd â sioe wanwyn o flodau fel clychau'r gog, blodau'r gwynt a suran y coed. Mae'r goedwig yn denu nifer o adar, gan gynnwys y tingoch a'r gwybedog brith, ac ar yr afon y mae'n bosibl gael cip ar fronwen y dŵr yn siglo i fyny ac i lawr, neu'r siglen lwyd yn ysgwyd ei chynffon, neu efallai y byddwch yn tarfu ar grëyr golygus o'r pwll. Uwchben, mae'n bosibl y byddwch yn gallu clywed y boda fwlturaidd yn mewian.

## WOODLAND WILDLIFE

The site's importance for wildlife is reflected in its designation as a Local Nature Reserve. The steep scree slope above the pond, clothed in sessile oak (so called because the acorn cup is stalkless), with bell heather and bilberry on the ground, is a good example of an upland oakwood, while the valley bottom has a variety of trees such as alder, ash and sycamore, together with a spring show of flowers such as bluebell, wood anemone and wood sorrel. The wood attracts a number of birds including the attractive redstart and pied flycatcher, while on the river you may spot the bobbing dipper or tail-wagging grey wagtail, or you may disturb the handsome heron from the pond. Overhead you may hear the mewing of the vulture-like buzzard.

## HANES DIWEDDAR

Roedd Nant y Coed unwaith yn rhan o Ystad Newry. Mr Massey oedd y perchennog. Cafodd ei phrydlesu yn y 1800au hwyr i John Rowland Jones, a oedd yn ŵr busnes lleol ac a'i datblygodd ar gyfer adloniant.

Cafodd y pwll pysgod ei adeiladu ar gyfer Mr Massey. Ef hefyd a osododd Newry Drive tua 1912, er mwyn iddo allu gyrru ei gar i fyny at Newry (Plas Heulog bellach) gan osgoi Mount Road serth.

Pobl gefnog fyddai'r ymwelwyr cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, yn dod i fyny ar gefn ceffylau, ond pobl dosbarth gweithiol oedd ymwelwyr yn y 20au a'r 30au. Roedd ystafell de yn Nant Uchaf yn y 20au a'r 30au, ac roedd cwt lluniaeth gerllaw'r pwll pysgod. Roedd tâl mynediad i'r nant a thâl ychwanegol am gael pysgota.

Cafodd Ystad Newry ei gwerthu yn 1923, ac ar 1af Ebrill 1924 penderfynodd Cyngor Dosbarth Dinesig Llanfairfechan brynu Nant y Coed ar gyfer adloniant. Bellach, mae'n eiddo i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## RECENT HISTORY

Nant y Coed was once part of the Newry Estate, owned by Mr. Massey. It was leased in the late 1800's to a local businessman, John Rowland Jones, who developed it for recreational purposes.

The fish pond was built for Mr. Massey who also put in Newry Drive, circa 1912, so that he could drive his car up to Newry (now Plas Heulog), avoiding the steep Mount Road.

The pre-World War 1 visitors would have been well-to-do, coming up on horseback, whereas visitors in the Twenties and Thirties would have been the working masses. Nant Uchaf was a tea place in the Twenties and Thirties and there was a refreshment hut by the fish pond. There was an entrance charge and an extra charge for fishing.

The Newry Estate was sold in 1923 and on 1st April, 1924 Llanfairfechan Urban District Council resolved to purchase Nant y Coed for recreational purposes. It is now owned by Conwy County Borough Council.







